WATKINS, TUDOR ELWYN, Barwn Watkins o Lantawe (1903-1983), gwleidydd Llafur

Enw: Tudor Elwyn Watkins
Dyddiad geni: 1903
Dyddiad marw: 1983
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidydd Llafur
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: John Graham Jones

Ganwyd Tudor Watkins ar 9 Mai 1903 yn Abercraf yng Nghwm Tawe, yr hynaf o ddeg o blant Howell Watkins, glöwr, a'i wraig Anne (g. Griffiths). Roedd ei dad yn Gynghorydd Sir Llafur, yn Ynad Heddwch ac yn flaenor a phregethwr lleyg gyda'r Bedyddwyr. Addysgwyd Tudor yn yr ysgol elfennol leol, dosbarthiadau estyn gyda'r nos, dosbarthiadau tiwtorial y brifysgol, dosbarthiadau a drefnwyd gan Fudiad Addysg y Gweithwyr a Chyngor Cenedlaethol y Colegau Llafur. Yn ddiweddarach, ac yntau wedi ennill ysgoloriaeth, mynychodd Goleg Harlech. Enillodd ei fywoliaeth fel glöwr gan gychwyn yn y pwll yn 13½ oed rhwng 1917 a 1925. Wedyn bu'n asiant y Blaid Lafur yn etholaeth Brycheiniog a Maesyfed, 1928-33. Roedd yn ysgrifennydd cyffredinol Cymdeithas Sir Frycheiniog o'r Cymdeithasau Lles, 1937-48. Roedd yn henadur ar Gyngor Sir Brycheiniog, 1940-74.

Gwasanaethodd yn AS Llafur dros etholaeth Brycheiniog a Maesyfed o etholiad cyffredinol 1945 nes iddo ymddeol o'r senedd ym 1970. Fe'i cydnabyddid yn lleol fel y gwleidydd a roddai anghenion ei etholwyr o flaen gwleidyddiaeth plaid. Roedd yn un o'r pum Aelod Seneddol Llafur a roddodd gefnogaeth gyson i ymgyrch gyndyn Senedd i Gymru'r 1950au cynnar, a hynny'n hollol groes i orchymyn y Blaid Lafur yn ganolog. Watkins oedd ysgrifennydd preifat seneddol y Gwir Anrhydeddus James Griffiths, sef y cyntaf i ddal swydd Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, 1964-66, a'r Gwir Anrhydeddus Cledwyn Hughes, 1966-67. Watkins oedd cadeirydd y Pwyllgor Dethol Seneddol ar Amaethyddiaeth, 1966-68. Roedd hefyd yn aelod o nifer fawr o bwyllgorau, yn eu plith Panel Cymreig y Cyngor Prydeinig (swydd y penodwyd ef iddi ym 1954), Bwrdd Twristiaeth Cymru, Pwyllgor Rheoli Ysbyty Brycheiniog a Maesyfed, Pwyllgor Ymgynghorol Cymreig Hedfan Sifil, a Chymdeithas Datblygu Diwydiannol Canolbarth Cymru. Crëwyd ef yn Farwn Watkins o Lantawe (iarllaeth am oes) ym 1972. Ar ôl ei ymddeoliad o'r senedd rhoddodd Watkins lawer o'i amser i wasanaethu llywodraeth leol; roedd yn henadur ac yn gadeirydd Cyngor Sir Brycheiniog. Ym 1970 penodwyd ef yn gadeirydd pwyllgor rheolaeth newydd Ysbyty Siroedd y Gororau (Cymru) a gwasanaethodd hyd at adrefnu'r gwasanaeth iechyd ym 1974. Ef oedd hefyd y cadeirydd cyntaf y Cyngor Sir Powys newydd, 1974-77, ac yn Arglwydd-Rhaglaw Powys o 1975 tan 1978. Ef oedd cadeirydd Pwyllgor Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, 1974-78. Gwasanaethodd yn ysgrifennydd Clwb Athletau Abercraf, y Clwb Criced, Cynghrair Pêl-droed Ystalyfera a'r Gymdeithas Arddwrol a'r Sioe. Dioddefai oddi wrth glefyd y siwgr ar hyd ei oes, ond ymdrechai bob amser i guddio'r anhwylder oddi wrth ei etholwyr.

Priodod Watkins ar 13 Ebrill 1936 Bronwen R. Strather, trydedd ferch y diweddar T. Strather, Talgarth. Ni fu iddynt blant. Eu cartref oedd Bronafon, Ffordd Penyfan, Aberhonddu. Bu farw yn Ysbyty'r Gofeb Rhyfel yn Aberhonddu ar 2 Tachwedd 1983 ac amlosgwyd ei weddillion yn amlosgfa Llwydcoed. Bu farw ei weddw 29 Awst 2007.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997 (Talybont 1999)

Welsh Hustings - 1885-2004 (Rhydaman 2005)

Western Mail, 3 Tachwedd 1983

Darllen Pellach

Archifau LlGC: Brecon and Radnor Parliamentary Division. With the compliments of Tudor Watkins

Archifau LlGC: Brecon & Radnor Divisional Labour Party. "Prelude to Victory" Rural Campaign.

Archifau LlGC: General Election, 1950... Brecon and Radnor Parliamentary Division... Tudor Watkins

Archifau LlGC: Brecon and Radnor Labour Election News

Archifau LlGC: For Peace & Progress. Tudor Watkins (The Labour Candidate)

Archifau LlGC: Brecon and Radnor Electoral Division. Parliamentary Election October 25th, 1951. Vote for Tudor Watkins

Archifau LlGC: Brecon and Radnor Labour Election News

Archifau LlGC: General Election, 1955... With the Compliments of Tudor Watkins

Archifau LlGC: Brecon and Radnor Parliamentary Division. General Election 1955

Archifau LlGC: Your Trusted Servant Tudor Watkins (The Labour Candidate)

Archifau LlGC: Brecon and Radnor Parliamentary Division. General Election 1964... Tudor Elwyn Watkins The Labour Candidate

Erthygl Wicipedia: Tudor Elwyn Watkins

Sain a Ffilm

BFI: Opening of New Market at Builth Wells, October 1953

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Lord Watkins Papers

Wikidata: Q7851330

Dyddiad cyhoeddi: 2008-07-31

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, J. G., (2008). WATKINS, TUDOR ELWYN, Barwn Watkins o Lantawe (1903-1983), gwleidydd Llafur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c6-WATK-ELW-1903

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government